CYFRES MAES Y MÊS

3. BRWYNWEN A'R ADERYN ANFERTH
4. BRIALLEN A BRECH Y MÊL

NIA GRUFFYDD

Dyma ddwy stori hyfryd arall yng nghyfres Maes y Mes - Tylwyth Teg y Goedwig yn dilyn Mwyaren a'r Lleidr a Rhoswen a'r Eira a gyhoeddwyd hydref llynedd. Mae pob stori yn canolbwyntio ar un tymor o'r flwyddyn ac wedi ei rhannu'n benodau byr gyda 3 llun du a gwyn i bob cyfrol, gan Lisa Fox.

Mae **Brwynwen a'r Aderyn Anferth** yn dathlu diwrnod cyntaf y gwanwyn, pan mae pawb yn dod at ei gilydd i gasglu mwsog i'r adar bach gael gwneud eu nythod. Ond mae Sbrowtyn druan yn colli arian o hyd!

Briallen a Brech y Mêl yw stori'r haf. Mae parti mawr ar Ŵyl Ifan ac mae'r tylwyth teg yn cael ffrogiau newydd. Ond mae brech y mêl ar Briallen!

PWYNTIAU GWERTHU

- Nofelau gwreiddiol yn y Gymraeg ar gyfer plant 7-10 oed.
- Mae'r awdur yn deall anghenion yr oed targed a ble mae'r bylchau yn y farchnad.
- Mae'r tymhorau yn thema oesol, ac yn boblogaidd fel thema gwersi mewn dosbarth.
- Bydd y straeon yn addas ar gyfer darllenwyr hyderus, ac ar gyfer eu clywed yn y dosbarth a chyn mynd i gysgu.
- Potensial i ehangu'r brand a chreu deunydd marchnata a fydd yn cyd-fynd â'r gyfres e.e. posteri lliw.

AM YR AWDUR

Mae Nia Gruffydd yn Bennaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd ac wedi gweithio ym myd llyfrau plant a phobl ifainc ers blynyddoedd. Mae'n byw ger Caernarfon.

MANYLION

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2018
Categoriau: Plant, 7-10 oed
Rhwymo: Clawr meddal
Nifer tudalennau: 40

Pris: £3.99 yr un
ISBN: 3. 9781784615659
4. 9781784615642

Y Lolfa Cyf.
Talybont
Ceredigion
SY24 5AP
+ 44 01970 832 304
fflur@ylolfa.com

Dosbarthu
Cyngor Llyfrau Cymru
Helena O'Sullivan
+44 01970 624 455
sales@books.wales

Taflen Wybodaeth Gynnar

ylLolfa
www.ylolfa.com

Deian a Loli (2 lyfr)
Angharad Elen / Nest Llwyd Owen

Cyfrol wreiddiol Gymraeg, nid addasiad, lawn lliw, clawr meddal, ar gyfer plant 3-8 oed. Bydd y darllenwyr eisoes yn gyfarwydd â chymeriadau'r gyfres deledu boblogaidd.

1. **Deian a Loli a'r Goriadau Coll:** Mae'r efeilliaid direidus, sydd â phwerau hudol, yn cael antur wrth ddysgu am fyd natur, ac adar yn benodol. Moeswers y stori yw i ofalu ar ôl pethau personol ac hefyd i beidio â rhoi bai ar gam.
2. **Teitl i'w gadarnhau.**

Bydd lluniau cartŵn llawn lliw ar bob tudalen.

PWYNTIAU GWERTHU

•Cymeriadau Cymraeg a Chymreig sydd eisoes yn arwyr i blant bach Cymru. Maent yn apelio at fechgyn a merched.
• Bydd y gyfres ar y teledu tan o leiaf 2020 felly mae potensial ar gyfer cyfres a fydd yn gwerthu am flynyddoedd.
• Mae'r brand yn mynd o nerth i nerth ac mae adnoddau ar gael i'w prynu e.e. crysau T, DVD ac mae sôn y bydd sioe lwyfan yn cael ei chynhyrchu yn y dyfodol.
• Mae'r awdur a'r dylunydd yn awyddus iawn ac yn gyffrous i gydweithio i lunio cyfres o lyfrau lliwgar, deniadol, gyda chymeriadau a sefyllfaoedd gwbwl Gymreig.

MANYLION

Dyddiad cyhoeddi:
Mai / Hydref 2018
Categoriau: plant, 5-8 oed
Rhwymo: Meddal

Nifer tudalennau: 36
Pris: £4.99
ISBN: 1. 9781784615789

AM YR AWDUR / ARLUNYDD

Angharad Elen yw awdur y llyfrau, yn ogystal â chynhyrchydd y rhaglenni teledu, sydd â ffigurau gwylio uchel iawn: cyfartaledd o 4,505 fesul pennod.

Daw Nest o Landwrog yn wreiddiol ac mae hi a'r awdur yn ffrindiau bore oes. Astudiodd Gelfyddyd Gain ym Mhrifysgol Aberystwyth ac mae'n fam i Jac, sy'n flwydd oed.

Y Lolfa Cyf.
Talybont
Ceredigion
SY24 5AP
+ 44 01970 832 304
fflur@ylolfa.com

Dosbarthu
Cyngor Llyfrau Cymru
Helena O'Sullivan
+44 01970 624 455
sales@books.wales

Taflen Wybodaeth Gynnar

ylolfa
www.ylolfa.com

PEN-BLWYDD CYW
ANNI LLŶN

Dyma'r 6ed yn y gyfres o lyfrau stori Cyw. Mae *Cyw yn yr Ysbyty, Cyw yn yr Ysgol, Nadolig Llawen Cyw, Cyw ar y Fferm, Mabolgampau Plwmp* a hefyd *Geiriau Cyntaf Cyw*, wedi gwerthu'n wych.

Llyfr perffaith i blant bach i ddysgu geirfa sy'n gysylltiedig â phen-bwydd, a phatrymau iaith syml.

Mae'r gyfrol yn llawn lluniau lliw o daenlenni tudalennau dwbl yn dangos Cyw a'i ffrindiau yn dathlu mewn parti.

Bydd brawddegau byr ar bob tudalen yn Gymraeg. Llyfr lliwgar, maint hylaw, 24 tudalen.

PWYNTIAU GWERTHU

• Mae'r llyfr yn cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â phen-blwydd rhaglenni Cyw yn 10 oed.
• Adnodd deniadol ar gyfer plant bach.
•Bydd y gynulleidfa darged yn gallu uniaethu â phrofiad Cyw yn mynd i bart pen-blwydd.
• Mae rhaglenni Cyw a'r cymeriadau eraill yn boblogaidd tu hwnt ac mae'r Lolfa'n cydweithio gyda Boom Plant ac S4C i greu'r gyfres.
•Bydd y gyfrol yn cael ei chyhoeddi yn gynnar ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018.
• Bydd Sioe Cyw yn ystod Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, a bydd tipyn o ddathliadau'n cael eu cynnal, a bydd yn fodd o gyrraedd cannoedd o rieni, plant ac athrawon.

MANYLION

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2018
Categoriau: Plant
Rhwymo: Clawr meddal

Nifer tudalennau: 24
Pris: £3.95
ISBN: 9781784615802

Y Lolfa Cyf.
Talybont
Ceredigion
SY24 5AP
+ 44 01970 832 304
fflur@ylolfa.com

Dosbarthu
Cyngor Llyfrau Cymru
Helena O'Sullivan
+44 01970 624 455
sales@books.wales

Taflen Wybodaeth Gynnar

ylLolfa
www.ylolfa.com



NA, NEL! WAW!

MELERI WYN JAMES

Llyfr A5 lliwgar i annog plant i ddefnyddio eu dychymyg ac ehangu eu meddyliau, a gwneud hynny gyda hwyl a direidi arferol llyfrau Na, Nel!.

Bydd dwy stori fer newydd, ynghyd ag annog plant i feddwl yn greadigol a defnyddio eu dychymyg trwy wneud gweithgaredd amrywiol e. e. posau geiriau, côds cyfrinachol, sudoku, cyfweliad, ymarferion hwyliog sy'n annog plant i greu eu cymeriadau eu hunain ac i chwarae, i lunio disgrifiadau, i greu llinynnau storïol ac i symud ymlaen i ysgrifennu eu campweithiau eu hunain.

Gweithgaredd arall amrywiol i danio'r dychymyg creadigol e.e. creu crefftau, tynnu llun, lliwio, dylunio a choginio ryseitiau.

Bydd lluniau deniadol John Lund drwy'r gyfrol.

PWYNTIAU GWERTHU

• Cwmni Theatr Arad Goch yn trefnu taith theatrau gyda sioe newydd wedi ei seilio ar gymeriad Nel.
• Mae'r llyfr yn cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â'r daith ac mae potensial i filoedd o blant fachu ar y cyfle i weld/prynu'r llyfr newydd. Fe fydd yn cynnwys stori a lluniau newydd sbon, yn lliw llawn i gyd ac yn llawn syniadau i annog plant i ddefnyddio eu dychymyg.
• Yn dilyn llwyddiant llyfrau cyntaf Na, Nel! (gwerthwyd ymhell dros fil o gopïau) dyma gyfrol arall, ychydig yn wahanol, am y cymeriad annwyl, direidus.
•Mae'n llenwi bwlch am lyfr gwreiddiol doniol, gyda phwyslais ar gefndir a sefyllfaoedd gwbwl Gymreig.
•Mae'r awdur yn teithio i ysgolion i hyrwyddo'r gyfres.

AM YR AWDUR

Awdures yw Meleri Wyn James.
Mae hi'n byw yn Aberystwyth ac yn olygydd i wasg Y Lolfa.

MANYLION

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2018
Categoriau: Plant, 6-10 oed
Rhwymo: Clawr meddal

Nifer tudalennau: 48
Pris: £4.99
ISBN: 9781784615666

Y Lolfa Cyf.
Talybont
Ceredigion
SY24 5AP

+ 44 01970 832 304
fflur@ylolfa.com

Dosbarthu
Cyngor Llyfrau Cymru
Helena O'Sullivan

+44 01970 624 455
sales@books.wales

Taflen Wybodaeth Gynnar

ylolfa
www.ylolfa.com

CWPAN Y BYD 2018
Dylan Ebenezer

Cyfrol lliw llawn yn dilyn hanes pencampwriaeth pêl-droed Cwpan y Byd 2018.

Bydd dyluniad lliwgar a deniadol gan Elgan Griffiths yn creu cyfrol addas ar gyfer pob oed.

Bydd ffeithiau difyr a ffotograffau lliw am bob gwlad sy'n cystadlu, yn ogystal â chwaraewyr adnabyddus, yr hyfforddwyr, y citiau a'r logos. Bydd siart am ddim gyda manylion pob gêm ac amserlen y gêmau i gyd yn cael ei gynnwys yn y llyfr.

PWYNTIAU GWERTHU

- Llyfr deniadol wedi ei ddylunio'n broffesiynol gyda thestun bywiog i apelio at blant o bob oed.
- Bydd sylw enfawr i Gwpan Pêl-droed y byd o fis Mai ymlaen, gyda'r bencampwriaeth ei hun yn dechrau yn Rwsia ym mis Mehefin.
- Bydd llyfr pêl-droed o'r math yma siwr o apelio'n eang gan fod yn hynod ddefnyddiol i ysgolion.
- Cyhoeddir y llyfr erbyn Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed.
- Gwerthwyd tua 2,000 copi o lyfr Cwpan Pêl-droed y Byd 2010 a thua 3,500 copi o Gwpan Rygbi'r Byd 1999.

AM YR AWDUR / ARLUNYDD

Mae Dylan Ebenezer yn wyneb a llais adnabyddus ar raglenni chwaraeon ar deledu a radio.

Mae Elgan Griffiths yn ddylunydd profiadol ac wedi gweithio ar nifer o lyfrau chwaraeon.

MANYLION

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2018
Categoriau: Chwaraeon, Plant
Rhwymo: Meddal

Nifer tudalennau: 64
Pris: £4.99
ISBN: 9781784615680

Y Lolfa Cyf.
Talybont
Ceredigion
SY24 5AP
+ 44 01970 832 304
fflur@ylolfa.com

Dosbarthu
Cyngor Llyfrau Cymru
Helena O'Sullivan
+44 01970 624 455
sales@books.wales

Taflen Wybodaeth Gynnar

ylLolfa
www.ylolfa.com

DELWEDD DROS DRO

FI A JOE ALLEN
Manon Steffan Ros

Nofel arall gan yr awdures boblogaidd, gyda phêl-droed yn ganolog iddi, gan anelu at fechgyn, yn bennaf.

Mae'r stori'n ymwneud â bachgen sydd ddim â pherthynas dda iawn â'i dad, ond mae'r ddau'n mynd efo'i gilydd bob dydd Sadwrn i weld tîm Dinas Bangor.

Mae'r bachgen (Marc, ar ôl Mark Hughes) yn datblygu obsesiwn efo Joe Allen, sydd, ym meddwl Marc, yn debyg i'w dad. Bydd elfen hefyd o adleisio Coleman yn gadael y tîm er mwyn mynd i rywle sydd ddim mor apelgar ar yr olwg gyntaf.

Mae Marc a'i dad yn mynd ar eu gwyliau cyntaf gyda'i gilydd i Ffrainc i weld Cymru'n chwarae, a dyma lle mae'r ddau yn dod i adnabod ei gilydd yn iawn.

PWYNTIAU GWERTHU

- Mae'r nofel yn cael ei chyhoeddi cyn Cwpan y Byd ym mis Mehefin 2018.
- Mae'r gyfrol wedi'i hanelu at ddarllenwyr da diwedd CA2 a Bl. 7-9.

AM YR AWDUR / ARLUNYDD

Mae Manon Steffan Ros yn awdures doreithiog, wedi cyhoeddi nifer o nofelau i bobl ifainc ac i oedolion, yn gantores, yn ddramodydd, yn awdures lawn-amser, ac yn cyhoeddi colofn wythnosol yn *Golwg*. Enillodd Wobr Tir na n-Og am ei nofel ddiweddaraf ar gyfer yr oed targed yma, sef *Pluen*, hefyd *Trwy'r Tonnau* yn 2010, ac yn 2012 am *Prism*. Enillodd Wobr y Bobl Llyfr y Flwyddyn 2010 am ei nofel gyntaf ar gyfer oedolion, *Fel Aderyn* a'r wobr Ffuglen am *Blasu* yn 2013. Mae'n byw yn Nhywyn gydag Efan a Ger, eu meibion.

MANYLION

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2018
Categoriau: ffuglen
Rhwymo: meddal

Nifer tudalennau: 128
Pris: £5.99
ISBN: 9781784615673

Y Lolfa Cyf.
Talybont
Ceredigion
SY24 5AP
+ 44 01970 832 304
fflur@ylolfa.com

Dosbarthu
Cyngor Llyfrau Cymru
Helena O'Sullivan
+44 01970 624 455
sales@books.wales

Taflen Wybodaeth Gynnar

ylolfa
www.ylolfa.com